## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 13 Rhagfyr 2006

## Cynigion a gyflwynwyd ar 5 Rhagfyr 2006

**NDM3381 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2006; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006.

**NDM3382 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd 2006.

**NDM3383 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2006.

**NDM3384 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006.

**NDM3385 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006.

*Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**NDM3386 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006.

**NDM3387 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006.

*Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**NDM3388 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.5, yn awdurdodi'r gyllideb flynyddol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2007-2008 fel y'i nodir yn Atodiad A y cynnig hwn.

Troednodyn:

Mae’r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys y canlynol:

a) Datganiad Ysgrifenedig yn cyflwyno’r Gyllideb Derfynol;
b) Tabl o Gwmpasiadau’n disgrifio pwrpasau’r gwariant a’r adnoddau sy’n cronni;
c) Tabl cysoni’n dangos faint o adnoddau sy’n berthnasol i Weinidogion a chyrff eraill a noddir; a
d) Tablau cysoni arian a datganiad o’r taliadau i’w gwneud i’r gronfa gyfunol yn 2007-08.

Mae’r ddogfen hon yn cydymffurfio â’r darpariaethau presennol yn Rheolau Sefydlog trosiannol 21.5 - 21.8.

E-bostiwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol at Aelodau’r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2006:

a) Copïau o’r gyllideb BEL draddodiadol yn dangos dyraniadau manwl ar draws y Prif Grwpiau Gwariant;
b) Tablau BEL yn cynnwys nodiadau sy’n ymwneud â throsglwyddiadau’r gyllideb ers y Gyllideb Ddrafft.

**Cynnig a gyflwynwyd ar 6 Rhagfyr 2006**

**Dadl Fer**

**NDM3390 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** ‘Ar Eich Beic’ – hybu beicio yng Nghymru

**NDM3389 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.8 yn cadarnhau argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2006.